ATODLEN 10 Rheoliad 18

Sylweddau rhagsylweddyn osôn

Amcanion

1. Prif amcanion mesuriadau sylweddau rhagsylweddyn osôn yw dadansoddi unrhyw dueddiad mewn rhagsylweddau osôn, gwirio effeithlonrwydd strategaethau gostwng allyriannau, gwirio cysondeb dangosyddion allyriannau a helpu i briodoli ffynonellau allyriannau i grynodiad llygredd.

2. Nod ychwanegol yw cefnogi dealltwriaeth ffurfiad yr osôn a phrosesau gwasgariad rhagsylweddyn, yn ogystal â chymhwysedd modelau ffotocemegol.

Sylweddau

3. Mae'n rhaid i fesuriadau sylweddau rhagsylweddyn osôn gynnwys o leiaf nitrogen ocsidau, a chyfansoddion organig anweddol priodol. At ddibenion yr Atodlen hon, ystyr "cyfansoddion organig anweddol" yw'r holl gyfansoddion organig o ffynonellau anthropogenig a biogenig, heblaw methan, sy'n gallu cynhyrchu ocsidyddion ffotocemegol trwy adweithio gyda nitrogen ocsidau yng ngolau'r haul.

4. Rhoddir rhestr o gyfansoddion organig anweddol yr argymhellir eu mesur trwy Gyfarwyddeb 2002/3/EC(**1**) yn y tabl isod—

Ethan	1-Buten	Isopren	Ethyl bensen
Ethylen	trans-2-Buten	n-Hecsane	m+p-Sylen
Acetylen	cis-2-Buten	i-Hecsane	o-Sylen
Propan	1.3-Butadiene	n-Heptan	1,2,4-Trimeth. Bensen
Propen	n-Pentan	n-Octan	1,2,3-Trimeth. Bensen
n-Butan	i-Pentan	i-Octan	1,3,5-Trimeth. Bensen
i-Butan	1-Penten	Bensen	Fformaldehyd
	2-Penten	Toluen	Cyfanswm hydrocarbonau sydd ddim yn methan

Dulliau cyfeirio

5. Y dull cyfeirio ar gyfer dadansoddi ocsidau nitrogen yw ISO 7996:1985, Aer amgylchynol — penderfynu ar grynodiadau mas nitrogen ocsidau — dull cemymoleuedd.

Safleoedd monitro

6. Dylid cymryd mesuriadau, yn arbennig mewn ardaloedd trefol a maestrefol, mewn unrhyw safle monitro a ystyrir yn briodol mewn perthynas â'r amcanion monitro yn yr Atodlen hon.

(**1**) Mae cyfeiriad llawn ar gyfer y Gyfarwyddeb hon i'w gael yn rheoliad 2(2)(d).